

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl

1. Cyflwyniad

Mae'r ymateb hwn gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn canolbwyntio ar swyddogaeth bwysig cyfieithu wrth ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol, wrth weithredu Safonau'r Gymraeg, ac wrth anelu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cefnogwn y gred, ym mhwynt 6.59 y Papur Gwyrdd, y byddai creu awdurdodau newydd yn cynnig cyfle i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn enwedig o wir am gyfieithu. O ganlyniad gellid sefydlu unedau cyfieithu cryf ym mhob awdurdod newydd. Byddai hyn yn ei dro yn sicrhau gwelliannau a threfniadau mwy effeithiol na'r ddarpariaeth bresennol sy'n dameidiog ac anghyson: cyflogir timau cryf gan rai cynghorau, llai mewn eraill, a dim un cyfieithydd mewn nifer o gynghorau. Ac yn sail i'r cyfan fyddai safonau proffesiynol y Gymdeithas hon.

O fwrw ymlaen â'r cynlluniau sydd yn y Papur Gwyrdd, gobaith Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw y bydd pob awdurdod newydd yn rhoi bri ar gyfieithu fel crefft o'r dechrau'n deg, ac yn cydnabod statws proffesiynol cyfieithu fel galwedigaeth ac nid fel swydd weinyddol. Trwy roi gwerth ar y Gymraeg fel sgil ynddi'i hun yn y modd hwn, ac arddel yr egwyddorion hyn, bydd awdurdodau'n gwneud datganiad cadarnhaol fod y Gymraeg yn greiddiol bwysig i'w dulliau gweithio a'u gweinyddiaeth fewnol.

Noder hefyd awydd Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050 (tud. 73) 'i weld y proffesiwn [cyfieithu] yn esblygu ac yn addasu ar gyfer y dyfodol ... Bydd hyn yn golygu parhau i sicrhau cyflenwad parod o gyfieithwyr proffesiynol ac ieithyddion graddedig â sgiliau modern, a gefnogir gan drefn achredu a rheoleiddio gadarn sy'n seiliedig ar safonau ac ymddygiad proffesiynol.'

2. Unedau cyfieithu cryf

2.1 Bydd diwygio llywodraeth leol yn cynnig cyfle heb ei ail i sefydlu unedau cyfieithu cryf ym mhob awdurdod lleol newydd, unedau ag iddynt strwythur staffio bendant a fydd yn caniatáu meithrin arbenigedd. Dylai'r strwythur hwnnw gynnwys cyfieithwyr ag amrywiaeth o brofiad ac oedran, cyfieithwyr ar bob lefel o'u gyrfaedd, a chefnogaeth weinyddol gan swyddogion sy'n deall hanfodion prosesau cyfieithu. Byddai pob un ar gyflogau a fyddai'n adlewyrchu ac yn cydnabod cyfieithu fel proffesiwn.

2.2 Dylai pob uned cyfieithu gynnwys digon o staff i ymdopi â'r galw. Rydym o'r farn y byddai angen i awdurdod gyflogi o leiaf 10 cyfieithydd ar gyfer hyn. Ar y brig byddai pennaeth a fyddai'n gyfieithydd gyda chymwysterau a phrofiad ac a fyddai'n aelod Cyflawn o'r Gymdeithas (a/neu hefyd yn aelod Cyfieithu ar y Pryd). Dylid sicrhau fod yr uwch gyfieithwyr hefyd yn aelodau Cyflawn, a'r

cyfieithwyr eraill yn aelodau Sylfaenol ac yn gweithio tuag at uwchraddio'u statws i aelodaeth Gyflawn. Dylid mynnu fod cyfieithwyr dan hyfforddiant yn gweithio tuag at aelodaeth Sylfaenol ac yn cyrraedd y nod hwnnw o fewn cyfnod rhesymol, dyweder 2 flynedd. Byddai'r un peth yn wir am y cyfieithwyr hynny sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

- 2.3** Bydd angen sicrhau fod awdurdodau'n cynnig digon o gyfleoedd i gyfieithwyr ddatblygu'n broffesiynol a bod llwybrau dilyniant clir ar gael iddynt hwy er mwyn sicrhau nad yw cyfieithwyr da yn cael eu colli a bod digon o gymhelliant proffesiynol iddynt yn eu swyddi. Byddai'n werthfawr datblygu set sgiliau i gyfieithwyr ar bob lefel a bod y rhain yn cael eu mabwysiadu gan bob awdurdod lleol. Byddai strwythur gyrfa glir a phendant o'r fath yn gymorth i ddenu pobl dalentog i'r unedau a'u cadw ar ôl hynny. Wrth benodi cyfieithwyr dan hyfforddiant mae angen sicrhau y bydd hi'n bosib i'r rhain symud ymlaen i'r lefel nesaf ar ddiwedd eu cyfnod o hyfforddiant ac os ydynt yn ddigon abl fel cyfieithwyr.

Bydd y cyrsiau ôl-raddedig a gynigir gan Brifysgol Aberystwyth (y Cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol) a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y Dystysgrif Ôl-raddedig Cyfieithu ar y Pryd) yn allweddol wrth ddatblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

- 2.4** Yn gefn i hyn, bydd angen sicrhau bod polisïau gweithio ystwyth, oriau hyblyg, gweithio o gartref ac ati, yn cael eu defnyddio'n gadarnhaol ac yn greadigol i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.
- 2.5** Fe fydd hi'n bwysig sicrhau cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gadarn i'r unedau cyfieithu hyn. Bydd hi'n bwysig llunio canllawiau safonol ynghylch rôl unedau cyfieithu a beth y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt eu cyflawni. Mae angen sicrhau fod aelodau etholedig a swyddogion ar y lefel uchaf yn deall beth yw cyfieithu, sut mae'n gweithio, y cyfraniad y mae'n ei wneud i waith a delwedd awdurdod, a phwysigrwydd cyfieithu wrth hyrwyddo Safonau'r Gymraeg. Byddem yn argymhell, felly, y dylai uned gyfieithu pob awdurdod berthyn i adran y Prif Weithredwr.
- 2.6** Ond, nid yw gweinyddu yn Gymraeg nac ymateb i ofynion Safonau'r Gymraeg yn rhywbeth y gellir ei wireddu trwy unedau cyfieithu yn unig. Yn yr un modd nid yw'n rhywbeth y gellir ei wireddu heb gymorth cyfieithwyr. Felly, mae angen gosod cyfieithu yn y cyd-destun ehangach. Mae angen gwybod beth yw sgiliau iaith staff yr awdurdod, ar lafar ac yn ysgrifenedig, trwy gynnal asesiad cynhwysfawr a thrylwyr, er mwyn creu darlun a fydd yn caniatáu i awdurdodau fapio'u hanghenion ieithyddol. Y nod fyddai galluogi mwy o swyddogion i weithio yn y ddwy iaith gan ryddhau unedau cyfieithu i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n flaenoriaeth i'r awdurdodau unigol. Gallai hyn arwain at unedau cyfieithu yn canolbwyntio ar fathau arbennig o waith cyfieithu, ac yn cynnig gwasanaeth golygu a phrawf ddarllen.

3. A allai cyfieithu arwain y ffordd?

Tybed a oes yna le i gyfieithu arwain y ffordd wrth i awdurdodau chwilio am

ddulliau o gydweithio'n effeithiol yn y broses o gyflawni canlyniadau a gwella perfformiad? Byddai hyn yn arwain at well cysondeb a safon wrth gyfieithu dogfennau, a byddai hyn hefyd yn arbed arian.

Gwasanaeth yw cyfieithu, ond mae'r cyhuddiad yn cael ei wneud yn aml fod dyblygu gwaith cyfieithu yn digwydd a bod hyn yn wastraffus. Mae nifer o ffurflenni/dogfennau ac ati yn debyg ym mhob awdurdod am eu bod yn deillio o ddeddfwriaeth ac o ddarparu'r un gwasanaethau neu lunio'r un polisiâu. Clywsom gan gwmni cyfieithu oedd wedi cael yn union yr un ffurflenni a chanllawiau i'w cyfieithu gan ddau gyngor gwahanol ym maes trwyddedu, sy'n deillio o ddeddfwriaeth y DU, ac mae'n amlwg o'r we bod cynghorau eraill wedi'u cyfieithu hefyd, felly mae nifer o fersiynau Cymraeg gwahanol o ffurflenni sydd yn union yr un peth yn Saesneg.

Dylid ystyried sefydlu trefn ac arfer o gydweithio a chyd-lynu rhwng swyddogion gwahanol awdurdodau lle gellid creu ffurflenni/dogfennau cyffredin a fyddai'n addas i'w defnyddio gan bob awdurdod ac yna rannu'r gwaith o'u cyfieithu. Oes angen i ni gynhyrchu 22 fersiwn o ddogfennau tebyg?

4. Cyfieithu ar y pryd

Mae cyfieithu ar y pryd yn sicrhau y caiff pob un gyfrannu mewn cyfarfod yn ei ddewis iaith yn ddi-rwystr.

Dylid sicrhau, felly, fod offer cyfieithu ar y pryd priodol ar gael ym mhob awdurdod lleol newydd. Dylid sicrhau fod offer sefydlog ym mhrif siambr pob awdurdod ac mewn ystafelloedd pwyllgor a ddefnyddir yn aml, a bod offer symudol ar gael ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir mewn ystafelloedd llai ac ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus mewn mannau eraill e.e. canolfannau cymunedol, ysgolion. Byddai'n fanteisiol pe byddai awdurdodau yn cael offer symudol sydd yn gydnaws, er mwyn hwyluso trefniadau benthyc pan gyfyd yr angen, e.e. cynadleddau.

5. Defnyddio a manteisio ar dechnoleg

Bydd hi'n bwysig sicrhau fod pob awdurdod yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg ac yn rhannu adnoddau. Bydd hyn yn arbennig o wir yn achos cofau cyfieithu lle mae'n bwysig sicrhau y bydd hi'n bosib i sefydliadau cyhoeddus rannu cofau cyfieithu a chronfeydd terminoleg, yn ogystal â ffurflenni a dogfennau. I weithredu hyn yn effeithiol, rhaid mynd i'r afael â materion diogelu data a chyfrinachedd, hawlfraint, ac eiddo deallusol.

Mae lle pwysig i gyfieithu peirianyddol mewn unedau cyfieithu, serch bod hyn yn bwnc sy'n hollti'r farn yn fyd-eang. Mae manteision amlwg iddo yn enwedig os caiff cyfieithwyr yr hyfforddiant priodol wrth ôl-olygu'r cyfieithiadau peirianyddol. Mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol wedi bod yn arloesi yn y maes hwn ers sawl blwyddyn, ac fe allai eu profiad a'u harbenigedd hwy fod yn enghraifft o arfer da y gellid ei rannu.

Hefyd dylid defnyddio technoleg at ddibenion eraill, megis sefydlu trefniadau llif

gwaith clir ac effeithiol ar draws yr awdurdod, fel rhan o'r broses o sicrhau dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

Bydd angen sicrhau fod y seilwaith TG yn yr awdurdodau newydd yn ddigon cadarn i ddarparu ar gyfer anghenion unedau cyfieithu, gan gynnwys, rhannu cofau cyfieithu, defnyddio cyfieithu peirianyddol, ac anfon a derbyn ffeiliau mawr. Bydd angen i'r seilwaith hwn fod yn hyblyg o ran lleoliad y gwaith cyfieithu, ac yn caniatáu i gyfieithwyr weithio mewn lleoliadau ar wahân i'w swyddfeydd arferol, e.e. gartref, neu mewn swyddfa arall o eiddo'r awdurdod. Gallai hyn, yn ei dro, fod yn ystyriaeth bwysig wrth ddenu a chadw'r cyfieithwyr gorau ac wrth ddarparu gwasanaeth Cymraeg ym mhob cwr o diriogaeth yr awdurdod newydd.

6. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Credwn y bydd swyddogaeth Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r safonau proffesiynol y mae'n eu harddel a'u hyrwyddo'n bwysicach nag erioed yn ystod y blynyddoedd i ddod wrth anelu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a gweithredu Safonau'r Gymraeg. Ein gobaith yw gweld yr holl awdurdodau newydd yn arddel safonau proffesiynol y Gymdeithas o'r dechrau'n deg fel y dull o feincodi safonau proffesiynol ac o sicrhau ansawdd.

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i chwarae'i rhan. Gallwn gynghori awdurdodau ynghylch darparu a defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol, yn ogystal â hybu a hyrwyddo cydweithio a chreu cysylltiadau. Rydym mewn sefyllfa ardderchog i gefnogi'r unedau cyfieithu newydd, hwyluso rhannu arferion gorau ac adnoddau, a dod a phobol at ei gilydd er mwyn i staff unedau cyfieithu ddysgu oddi wrth ei gilydd. Mae gennym rôl bwysig hefyd wrth ddarparu hyfforddiant, hybu datblygiad proffesiynol, a hyrwyddo'r proffesiwn cyfieithu. Mae gennym brofiad eang o drefnu gweithdai sy'n ymateb i anghenion cyfieithwyr wrth eu gwaith, hyrwyddo datblygiad proffesiynol, a chydweithio â sefydliadau Addysg Uwch - yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol - er budd y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

I gael gwybod rhagor am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, y corff sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol yng Nghymru, ewch i'n gwefan, <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/>.

7. I grynhoi

Dylid sicrhau:

- > y bydd unedau cyfieithu cryf yn yr holl awdurdodau newydd, a fydd yn perthyn i adran y Prif Weithredwr, ac iddynt strwythur staffio pendant.
- > y bydd digon o gyfleoedd i gyfieithwyr ddatblygu'n broffesiynol a meithrin arbenigedd.
- > y gwneir y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o dechnoleg.
- > y bydd offer cyfieithu ar y pryd priodol ar gael ym mhob awdurdod.
- > y bydd yr holl awdurdodau newydd yn arddel safonau proffesiynol y Gymdeithas.